Ysgol Llannon School
Ffon/Tel: 01269 841563
E bost: LangabeerM6@hwbcymru.net
Croeso nôl i ysgol Llannon!

Annwyl Riant,

Mawr obeithiwn eich bod yn iach and yn ddiogel. Ar ddiwedd yr wythnos olaf yn dilyn ail agor yr ysgol hoffwn ddiolch i chi gyd am eich cydweithrediad. Diolch i bawb am gofio cwblhau'r ffurflen ddyddiol sy'n cadarnhau iechyd eich plentyn.

Braf oedd gweld nifer o ddisgyblion, gyda sawl un ohonynt yn amlwg yn falch i weld yr athrawon a'u ffrindiau. Hoffwn ganmol bob un am ddilyn y trefniadau er lles ei gilydd ac yn ôl yr arfer roedd eu hymddygiad yn ardderchog.

Rydym wedi derbyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru ac rydym wrthi yn cynllunio ail agoriad Ysol Llannon ar Fedi'r cyntaf ac i groesawu eich plentyn. Gweler yr amsereln dychwelyd yn raddol i'r ysgol. Ein nod yw ceisio cael holl ddisgyblion Ysgol Llannon nol erbyn y 10fed o Fedi.

| Dyddiad | Disgyblion i ddychwelyd |
|---|---|
| Medi 1af ac ail | Cynlluio a pharatoi |
| Dydd Iau y 3ydd | Plant newydd<br>Dosbarth Derbyn<br>Blwyddyn 3<br>Blwyddyn 5 |
| Dydd Gwener y 4ydd | Plant newydd<br>Dosbarth Derbyn<br>Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 3<br>Blwyddyn 5<br>Blwyddyn 6 |
| Dydd Llun y 7fed | Pob disgybl |

Bydd eich plentyn mewn grwp/swigen o fewn y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn aros yn y grwp/swigen hwn drwy'r dydd.

**Ymbellhau cymdeithasol:** bydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol lynu at reolau ymbellhau cymdeithasol a byddwn yn cefnogi eich plentyn i ddeall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw a'u hathrawon. Bydd codi arwyddion cymdeithasol o amgylch yr ysgol yn helpu i atgoffa pawb o'r disgwyliadau hyn. Rydym yn gofyn yn garedig i chi barchu hyn

wrth ollwng a chasglu eich plentyn, gan fod angen i ni gymryd pob mesur i leihau nifer y bobl sy'n ymgynnull y tu allan i'r ysgol.

Amserodd gadael a chasglu eich pentyn o'r ysgol:
Cyfnod Allweddol 2 – 8:45yb
Cyfnod Sylfaen- 8:55yb

Cyfnod Sylfaen - 3:10yp.
Blwyddyn 3 a 4 – 3:20yp
Blwyddyn 5 a 6 – 3:30pm

Er diogelwch pawb, bydd ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu monitro'n llym a dim ond am resymau hanfodol/brys y cânt eu caniatáu. Os ydych am siarad ag aelod o staff plis ffoniwch ar ol ysgol.

Golchi dwylo: bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi/diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Bydd y staff yn modelu'r ffordd gywir o olchi dwylo ac yn goruchwylio'r disgyblion wrth wneud mewn modd sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn ogystal, bydd gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u trefnu a'u sefydlu o gwmpas yr ysgol.

Glanhau: bydd cyfundrefnau clanhau yn cael eu gwella'n sylweddol, gyda glanhau arwynebau y cyffyrddir arnynt yn rheolaidd, dolenni drysau, toiledau ac ati.

Gwisg ysgol: **Bydd disgwyl i'r disgyblion wisgo gwisg ysgol.** Gallwch ddanfon dillad sbar mewn bag plstig gyda'ch plentyn rhag ofn.**Bydd angen dod a chot dwrglos a gwisgo esgidiau dwrglos i'r ysgol yn ddyddiol gan fydd disgyblion yn cael gwersi yn yr ardal allanol yn ddyddiol ac ymhob tywydd. Ni fydd angen dod a bag i'r ysgol.** Plis peidiwch dod a gwrthrychau di angen o adre.

A fyddai'n bosibl i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddod a wellingtons a thrwsus a chot dwrglos i adael yn ysgol? Plis gwnewch yn siwr fod nw eich plentyn arnynt.

Ymarfer corff: Ar y dydd bydd eich plentyn yn cael gwers ymarefer corff gall eich plentyn ddod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff sef Trac wisg, siorts glas tywyll, crys t gwyn plaen a siwmper ysgol.

Cyfnod Sylfaen – Dydd Mercher

Cyfnod Allweddol 2- Dydd Mawrth

Cinio ysgol: Ni fydd cegin yr ysgol ar agor tan **Medi 14eg.** Bydd pris cinio ysgol yn codi mewn pris o £2.50 i £2.55 yn ddyddiol.
Felly bydd angen i bob disgybl ddod â'u pecyn bwyd i ginio, byrbrydau a diod eu hunain i'r ysgol. Plis sicrhewch fod eich plentyn yn gallu agor pob pecyn a bocs.

Fe fydd **Clwb Brecwast** cyfynedig yn dechrau ar y 14 ddeg o Fedi. Unwaith daw unrhyw wybodaeth pellach i law byddwn yn eich hysbysu.

**Disgyblion symptomatig:** Os yw disgybl yn dangos symptomau o Covid 19 tra'i fod yn yr ysgol, bydd ystafell ynysu ar gael iddo/i. Cysylltir â'r rhieni a disgwylir iddynt gasglu eu plentyn o'r ysgol yn syth. Bydd y pennaeth yn cysylltu a rhannu gwybodaeth gyda Delta Wellbeing ar unwaith. Efallai bydd delta Wellbeing yn cysylltu gyda chi wedyn i gyngori ymhellach e.e.ynghlyn a chael prawf ayb  Caiff yr ardaloedd lle bu'r plentyn eu cydnabod ac yn cael eu glanhau'n drylwyr cyn eu hailddefnyddio, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Os ydych plentyn yn datblygu symptomau pan nad yw'n ysgol:**
NI  ddylid anfon eich plentyn i'r ysgol os ydy yn sal neun dangos symptomau o covid 19(peswch, tymheredd a methu blasu ac aroglu) neu os oes unrhywun arall yn eu cartrefi wedi profi'n bositif i Covid 19 o fewn 14 dydd. **Eich cyfrifoldeb chi fel rhieni yw hysbysu Delta Wellbeing ar 030033322 neu e bostio TTP@deltawellbeing.org.uk allan o oriau ysgol os ydych plentyn yn dangos symtomau.**

**Asesu risg:**

Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â pholisi asesu risg Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru:

https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-i-ysgolion-lleoliadau-addysg-diolgeu-addysg-covid-19

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i liniaru a lleihau risgiau cyn belled ag y bo'n bosibl yn ein hysgol. Bydd mesurau yn cynnwys cyfleoedd mynych i olchi dwylo, cyfyngu'n llym nifer y disgyblion a'r oedolion ar safle'r ysgol, ymbellhau cymdeithasol a rota glanhau gaeth. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i staff na disgyblion wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ar yr adeg hon, ac eithrio mewn achosion lle mae ymbellhau cymdeithasol yn cael ei beryglu, ee. cymorth cyntaf, cymorth â mynd i'r toiled lle mae pecynnau gofal a chymorth pwrpasol yn mynnu bod angen hynny.

Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i adolygu ei darpariaeth yn unol â chanllawiau statudol a gwneud diwygiadau i'w pholisi asesu risg pan a lle bo angen.

**Clwb  ar ol ysgol – Clwb Gofal- menter Cwm Gwendraeth**

Rydym yn dal i aros am wybodaeth gan Fenter Cwm Gwendraeth am drefniadau'r Clwb ail agor ar fedi 14ddeg. Unwaith gawn ni unrhyw wybodaeth byddwn yn eich hysbysu.

Fel tîm o staff yr ysgol, byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod profiad dychwelyd i'r ysgol mor ddiogel ac mor bleserus â phosibl i'ch plentyn.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch amynedd yn y mater hwn.

Gwyliau haf hapus!

Yn gywir,

Marie Langabeer